Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

SWYDDOG DYSGU A DATBLYGU (SGILIAU CYFFREDINOL A THECHNEGOL)

Rhif y Swydd: 503164

GRADD: 9 - Cyflog: £30,151 - £32,020 y flwyddyn

37 awr yr wythnos

Parhaol

Ydych chi wrth eich bodd yn datblygu a chefnogi eraill? Oes profiad o hyfforddi gyda chi? Os hoffech chi weithio mewn sefydliad sy'n cefnogi ac yn gofalu am eu cymunedau yng Nghymru efallai mai'r swydd hon yw'r un i chi….

Mae swydd barhaol fel Swyddog Dysgu a Datblygu (Sgiliau Cyffredinol a Thechnegol) wedi codi o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Wedi'i lleoli ym Mhencadlys GTADC yn Llantrisant, mae'r swydd lawn amser, barhaol hon (37 awr) yn rhan o dîm Dysgu a Datblygu'r Gwasanaeth.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddarparu datrysiadau dysgu, datblygu ac ymgysylltu proffesiynol i weithwyr GTADC drwy gydol eu cylch bywyd cyflogaeth. Bydd y swydd yn canolbwyntio ar gyflwyno dosbarthiadau meistr Gwasanaeth (darpariaeth fewnol ac allanol), a hefyd yn cefnogi gwreiddio prosesau datblygu newydd megis adolygiadau perfformiad, llwybrau arweinyddiaeth ac atebion hyfforddi. Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus felly allu dangos sgiliau cynllunio, cyfathrebu a chyflwyno rhagorol ynghyd ag angerdd i yrru diwylliant mwy cynhwysol a thrawsnewidiol yn ei flaen ar draws y Gwasanaeth.

Ceir rhagor o fanylion am y swydd hon yn y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person, y gellir eu llwytho i lawr ynghyd â ffurflen gais o dudalennau Gweithio i Ni/Swyddi Gwag Diweddaraf ein gwefan https://www.decymru-tan.gov.uk.

Dylai pob ymgeisydd mewnol wneud cais trwy eu porth CORE, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith. Sylwch nad yw hyn yn berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer swyddi gwag RDS.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/

Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk

Nid oes angen i ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais o fewn y chwe mis diwethaf wneud cais am y rôl hon.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **24/03/23 am 12:00 hanner dydd.**

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a bydd polisi gweithio'n hyblyg mewn grym. Mae'n bosibl y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad cofnodion troseddol sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac efallai bod yn ofynnol iddo ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn penodi**.**

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnha,u eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau

cyfweliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.